Llyr Gruffydd AS/MS
Gweinidog Cabinet dros Wydnwch Gwledig a Chynaliadwyedd
Cabinet Minister for Rural Resilience and Sustainability

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/LGRRS/1570/26

Syr Peter Fraser
Cadeirydd
Comisiwn y Gyfraith Cymru a Lloegr
1st Floor, Tower
52 Queen Anne's Gate
Llundain
SW1H 9AG

6 Awst 2026

Annwyl Peter,

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried, gyda diddordeb, yr adroddiad cwmpasu ar gyfraith amaethyddol yng Nghymru a gyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ar 11 Chwefror 2026.

Yn unol â'r Protocol sy'n bodoli rhwng Gweinidogion Cymru a Chomisiwn y Gyfraith, rwyf bellach yn nodi ein hymateb interim i'r adroddiad hwnnw. Er bod barn Comisiwn y Gyfraith ar fanteision cydgrynhoi a chodeiddio cyfraith amaethyddol yn glir, mae angen inni ystyried y cynnig hwn yng nghyd-destun ein rhaglen ehangach i wella hygyrchedd cyfraith Cymru sydd wrthi'n cael ei llunio o dan adran 2 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019.

Rhaid i'r rhaglen honno gael ei gosod o fewn chwe mis i benodi Prif Weinidog yn dilyn etholiad cyffredinol. Felly, bydd y Cwnsler Cyffredinol yn gosod yr adroddiad gerbron y Senedd ar ddechrau'r hydref, ac ar hyn o bryd, rwy'n disgwyl y byddwn wedyn mewn sefyllfa i ddarparu ein hymateb llawnach i'ch adroddiad cwmpasu ar ôl hynny.

Yn gywir,



Llyr Gruffydd AS/MS
Gweinidog Cabinet dros Wydnwch Gwledig a Chynaliadwyedd
Cabinet Minister for Rural Resilience and Sustainability

Welsh Government Offices, Cathays Park,
Cardiff. CF10 3NQ
Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Parc Cathays,
Caerdydd. CF10 3NQ

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Llyr.Gruffydd@llyw.cymru
Correspondence.Llyr.Gruffydd@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr iaith honno ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.